



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Perthnasau rhwng y Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ac Addysg Uwch

Ymchwil crynodeb

Ymchwil gymdeithasol

Rhif y ddogfen: 06/2013

Crynodeb

1. Mae datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) a'i roi ar waith yn llwyddiannus yn cynrychioli un o'r prif ffyrdd y mae Cymru, yn dilyn datganoli seneddol ym 1999, wedi datblygu ei hymateb i ddadleuon yn y DU ac yn rhyngwladol ynglŷn â'r ffyrdd mwyaf effeithiol o baratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch.
2. Cyflwynwyd CBC ym mis Medi 2003 fel cynllun peilot ac ers hynny mae wedi'i gynnig mewn nifer sylweddol o ysgolion a cholegau addysg bellach. Mae CBC yn defnyddio dull arbennig o drefnu'r cwricwlwm (a'r asesu cysylltiedig), gan gyfuno elfennau arwyddocaol o addysg gyffredinol a/neu alwedigaethol (yr Opsiynau, sy'n cynnwys cymwysterau sydd eisoes yn bodoli) â datblygu sgiliau allweddol, ymchwilio/dadansoddi trwy Ymchwiliad Unigol, gwybodaeth am ddiwylliant Cymru a'i lle yn Ewrop a'r byd ehangach, a chymwyseddau ehangach sy'n ymwneud â chymdeithas a gwaith (y Craidd, sy'n cynnwys darpariaeth wedi'i theilwra ar gyfer CBC).
3. Y rhesymeg sylfaenol yw bod sylw penodol ar sgiliau a datblygiad cymdeithasol trwy'r Craidd yn gwella'n sylweddol y cyfleoedd i bobl ifanc baratoi'n effeithiol ar gyfer symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch ac i ymuno â'r farchnad lafur.
4. Ym mis Mehefin 2012, dyfarnwyd contract i Sefydliad Ymchwill Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) i ymgymryd â phrosiect ymchwil ynglŷn â'r berthynas rhwng Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ac Addysg Uwch ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

5. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag un agwedd allweddol ar CBC: sef, ei effeithiolrwydd o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch. Felly, mae'n ymwneud yn unig â Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru (y diffinnir yr Opsiynau ar ei gyfer yn nhermau cymwysterau Safon Uwch neu gyfwerth).
6. Prif nod y gwerthusiad hwn, felly, yw: Archwilio'r berthynas rhwng Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru a pherfformiad mewn addysg uwch, gan ddefnyddio technegau ymchwil gymdeithasol cadarn. Yn benodol, amlygwyd chwe chwestiwn i'r gwerthusiad eu hystyried:
- A yw cwblhau Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru yn paratoi myfyrwyr ar gyfer gofynion addysg uwch?
 - Pa elfennau o Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru sy'n fwyaf/lleiaf defnyddiol i ddysgwyr o ran eu helpu i addasu i addysg uwch?
 - A yw Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru yn rhwystro neu'n gwella perfformiad mewn addysg uwch?
 - A yw Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru yn ysgogi llwyddiant academaidd?
 - A oes modd addasu gofynion Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru i wneud y cymhwyster yn fwy addas o ran paratoi dysgwyr ar gyfer addysg uwch?
 - Beth yw goblygiadau unrhyw newidiadau awgrymedig/cynlluniedig i Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru?
7. Mae'r gwerthusiad yn defnyddio methodoleg dulliau cymysg, gan gynnwys elfen feintiol

wedi'i seilio ar setiau data presennol ar raddfa fawr ac elfen ansoddol sy'n darparu dirnadaeth fanylach gan 25 o fyfyrwyr ysgol sy'n ymgymryd â CBC mewn tri chweched dosbarth ledled de Cymru, 37 o fyfyrwyr prifysgol a gyflawnodd CBC ac sydd bellach yn astudio mewn tri gwahanol fath o brifysgol yng Nghymru, cydgysylltwyr CBC o'r tri chweched dosbarth yn yr astudiaeth achos, a 12 aelod o staff (tiwtoriaid derbyn, cyfarwyddwyr cwrs, rheolwyr derbyniadau) o'r tair prifysgol yn yr astudiaeth achos.

8. Rhennir yr adroddiad yn saith pennod. Yn dilyn y cyflwyniad i'r adroddiad, mae'n amlinellu methodoleg a chynllun yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad. Yna mae Pennod 3 yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir am CBC, gan gynnwys nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd â CBC. Mae Penodau 4-6 yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r gwerthusiad, gan gyfuno dadansoddiadau data ystadegol ac ansoddol. Rhennir y canfyddiadau hyn yn dair

elfen: cyfranogiad mewn prifysgol; cynnydd a chanlyniadau mewn prifysgol; a'r profiad o CBC ymhlith staff a rheolwyr prifysgol. Fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos, ceir cysylltiad annatod rhwng CBC a mynediad at brifysgol a chynnydd mewn prifysgol. Felly, mae'r bennod olaf yn dwyn ynghyd nifer o gasgliadau ac yn trafod goblygiadau'r gwerthusiad ar gyfer CBC.

9. Mae'r gwerthusiad yn adrodd am ddau ganfyddiad allweddol ond cydgysylltiedig. Y cyntaf yw bod tystiolaeth gref i awgrymu bod CBC yn arbennig o werthfawr o ran helpu myfyrwyr i gael eu derbyn i addysg uwch. Mae'n ymddangos bod y budd hwn yn deillio'n bennaf o'r pwysoliad a roddir i elfen Craidd CBC fel cymhwyster cyfwerth â Safon Uwch ychwanegol (gradd A) ar gyfer (rhai) derbyniadau i brifysgolion.
10. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hefyd yn canfod tystiolaeth sy'n awgrymu bod myfyrwyr sy'n meddu ar Craidd

CBC yn llai tebygol o gyflawni canlyniad gradd 'da' na myfyrwyr cyfwerth nad ydynt yn meddu ar Craidd CBC, pan fyddant yn y brifysgol.

11. Mae'r adroddiad yn dadlau y gallai'r canfyddiadau hyn fod yn gysylltiedig. Mae'n ymddangos bod meddu ar CBC yn gwella'r tebygolrwydd o gael lle mewn prifysgol, a phopeth arall yn gyfartal; ond mae'n ymddangos y daw'r fantais hon ar draul canlyniadau llwyddiannus yn y brifysgol.

12. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn awgrymu bod y cysylltiadau hyn yn gwahaniaethu rhywfaint, yn dibynnu ar natur y myfyrwyr. Yn hollbwysig, mae'n ymddangos mai myfyrwyr sy'n cyflawni'n isel sydd â'r mwyaf i'w ennill trwy feddu ar CBC o ran cael eu derbyn i brifysgol. Er nad yw'n ymddangos bod meddu ar CBC yn effeithio ar lefelau cyffredinol y myfyrwyr cymharol uchel eu cyflawniad sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch, mae'n rhoi rhywfaint o fantais iddynt o ran cael eu

derbyn i brifysgolion Grŵp Russell.

13. Er gwaethaf y canlyniadau cymysg hyn, roedd staff a myfyrwyr mewn ysgolion a phrifysgolion yn cefnogi CBC a'i brif nodau yn gyffredinol. Serch hynny, cydnabuwyd bod angen gwella cynnwys a chyflwyniad CBC er mwyn gwireddu'r manteision hyn yn llawn.

14. Mae'r adroddiad yn nodi tri phrif faes lle y gellid gwella CBC: y ffordd y caiff CBC ei hyrwyddo a'i gyflwyno mewn canolfannau; gwneud CBC yn fwy heriol, o ran sgiliau a gwybodaeth; a theilwra elfennau Craidd CBC yn fwy i anghenion penodol myfyrwyr.

15. Canfu'r gwerthusiad hefyd gefnogaeth dros gyflwyno graddau yn CBC. Fodd bynnag, teimlwyd pe na byddai newidiadau'n cael eu gwneud i gynnwys a chyflwyniad CBC mewn lleoliadau, na fyddai cyflwyno graddau'n fuddiol iawn. Yn yr un modd, yn y sector addysg uwch, nid oedd

yn eglur pa effaith, os o gwbl, y byddai cyflwyno graddau'n ei chael ar dderbyniadau addysg uwch, yn enwedig gan nad yw CBC yn cael ei gynnwys ar hyn o bryd wrth ddyrannu 'lleoedd AAB digyfyngiad' mewn prifysgolion yn Lloegr.

16. Yn olaf, mae'r adroddiad yn awgrymu bod angen monitro a dadansoddi'n barhaus er mwyn deall yn llawn y berthynas rhwng CBC a chyfranogiad a chynnydd mewn prifysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig, oherwydd dros amser bydd gwell data ar gael i allu dadansoddi'n fanylach yn ogystal â niferoedd cynyddol o fyfyrwyr prifysgol sy'n meddu ar CBC.

**Awdur: Arthro Chris Taylor
Arthro Gareth Rees
Rhys Davies**

**Sefydliad Ymchwill
Gymdeithasol ac Economaidd,
Data a Dulliau Cymru, Prifysgol
Caerdydd**



ISBN: 978-0-7504-8739-9